

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 18 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Niwed a Achosir gan Lyn Bae Caerdydd (Goblygiadau o ran Costau)

C11 Alison Halford (Rhodri Morgan): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU am y pryderon a godwyd gan Kevin Brennan AS am oblygiadau'r niwed y mae llyn bae Caerdydd yn ei wneud i dai'r ddinas, a hynny o ran y costau? (OAQ18441)

Prif Weinidog Cymru: Dim yn ddiweddar, o gofio mai mater wedi'i ddatganoli yw hwn erbyn hyn. Yn ôl y dangosyddion diweddaraf, nid oes llawer o achos i ofidio am niwed i eiddo gan fod 8,000 o arolygon i eiddo wedi'u gwneud ers 1999 a dim ond mewn un adeilad y cafwyd hyd i niwed gan ddŵr yn y ddaear. Er hynny, mae'r sefyllfa yn cael ei monitro a'i rheoli'n agos gan Awdurdod Harbwr Caerdydd.

Ymgyrchoedd Gwybodaeth i'r Cyhoedd (Effeithiolrwydd)

C12 David Davies: Beth y mae'r Prif Weinidog yn ei wneud i fonitro effeithiolrwydd ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd? (OAQ18439)

Prif Weinidog Cymru: Defnyddir sawl modd o fonitro effeithiolrwydd ein hymgyrchoedd i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Er enghraifft, yr ydym yn ymgynghori'n rheolaidd â ffermwyr ynghylch y wybodaeth yr ydym yn rhoi iddynt, ac yr ydym yn cael adborth gan staff y gwasanaeth iechyd gwladol ynglŷn ag ymgyrchoedd iechyd. Nid oes raid ond edrych ar ganlyniadau llawer o'r ymgyrchoedd. Mae'r ffaith bod cymaint o bobl wedi manteisio ar y tocynnau teithio am ddim ar y bysiau, a hynny yn sgîl ymgyrch cyhoeddusrwydd, yn dangos yn glir mor llwyddiannus oedd yr ymgyrch a'r polisi. Yr wyf yn ffyddiog y bydd ymateb yr un mor gadarnhaol yn sgîl ymgyrch hyrwyddo grantiau dysgu'r Cynulliad.

Trechu Tlodi er mwyn Gwella Cyraeddiadau Addysgol

C13 Mick Bates: Beth sy'n cael ei wneud o ran trechu tlodi er mwyn gwella cyraeddiadau addysgol mewn ardaloedd ddifreintiedig? (OAQ18424)

Prif Weinidog Cymru: Mae rhaglen Llywodraeth y Cynulliad i ymdrin â phroblemau ein cymunedau mwyaf ddifreintiedig yn cydnabod mai cyraeddiadau addysgol gwell yw'r allwedd i adnewyddu llwyddiannus. Ceir manylion y cynigion cyffredinol i adnewyddu cymunedau yng nghynlluniau gweithredu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a fydd yn cael eu datblygu gan bartneriaethau lleol. Mae angen i'r rheini ymdrin â materion addysg a hyfforddi, a chysylltu â mentrau eraill y sector cyhoeddus.

Dyma enghraifft o fentrau o'r fath:

- cyllid i ymdrin ag anfantais gymdeithasol yn ôl y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant;
- cynllun grantiau dysgu'r Cynulliad a gyflwynir ym mis Medi i ehangu cyfleoedd i ymgymryd ag addysg bellach ac uwch; a
- gwaith i godi safonau mewn ysgolion mewn ardaloedd ddifreintiedig, drwy ganfod yr elfennau sy'n gyfrifol am lwyddiant rhai ysgolion o'r fath a thrwy rannu'r arfer da hwnnw.

Defnyddio'r Weithdrefn Gyflymach ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

C14 David Melding: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y mae ei weinyddiaeth yn defnyddio'r weithdrefn gyflymach ar gyfer is-ddeddfwriaeth? (OAQ18442)

Prif Weinidog Cymru: Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn gorfodi fy ngweinyddiaeth i gynnig argymhellion i'r Pwyllgor Busnes i wahaniaethu rhwng defnyddio gweithdrefnau safonol a rhai cyflymach er mwyn ymdrin â is-ddeddfwriaeth ddrafft yn y Cyfarfodydd Llawn. Er hynny, yr ydym yn gwneud hynny er mwyn arddel arfer da ac mae ein hargymhellion yn adlewyrchu ein safbwynt ynglŷn ag i ba raddau y bydd Aelodau am archwilio'r is-ddeddfwriaeth, o gofio natur yr offeryn arfaethedig ac unrhyw sylwadau gan Aelodau.

Blaenoriaethau Addysg yn y Gogledd

C15 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â blaenoriaethau ei Lywodraeth ar gyfer addysg yng ngogledd Cymru? (OAQ18381) [W]

Prif Weinidog Cymru: Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg yng ngogledd Cymru—a Chymru gyfan—i'w gweld yn 'Cynllun i Gymru 2001', 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ac yn 'Y Wlad sy'n Dysgu'. Mae'r rhain yn ategu ein huchelgais i wneud Cymru'n wlad sy'n dysgu gydag un o systemau addysg a hyfforddiant gorau'r byd.